**Adroddiad am Unfed Gymanfa ar Ddeg Cyngor Eglwysi'r Byd**
**Karlsruhe, Yr Almaen: 31 Awst – 8 Medi 2022**

*Mae'r adroddiad hwn yn fwriadol gryno ond mae'n cynnwys nifer o ddolenni sy'n cysylltu â disgrifiadau manylach ar y wefan Cyngor Eglwysi'r Byd. Ceir darlun cyfoethocach drwy ddarllen yr adroddiad ochr yn ochr â'r deunydd hwn.*

Ymhle allen ni weld Cristnogion Coptig o'r Aifft yn cydaddoli â Methodistiaid o Chile, Anglicaniaid Ynysoedd Tonga yn cydweddïo â Lwtheriaid o Balesteina, Groegiaid Uniongred yn cyd-dystiolaethu â Phentecostiaid o Korea? Ymhle allen ni ddarganfod cyfoeth traddodiadau litwrgaidd tra gwahanol – o *Kyrie eleision* Kyiv i alwadau soniarus, llawen am gymod o Frasil, o ganeuon brodorol swynol pobl y Sami o'r Artig i rythmau bywiog De Affrica, o felodïau atgofus Siapan i foliant y Caribî?[1] Ymhle allen ni ymuno mewn sgyrsiau â phobl gyda phatrymau bywyd dyddiol tra gwahanol i ni – rhai ohonynt yn byw mewn gwledydd democratig, cyffyrddus a llewyrchus tra bod eraill yn wynebu gwrthdaro, ansefydlogrwydd, erledigaeth, newyn ac effeithiau dinistriol newid hinsawdd? Ymhle allen ni glywed am bobl yn dyheu'n ddiffuant i gydsefyll ag eraill, gweiddi o'r galon dros gyfiawnder, hiraethu am undod a datgan eu ffydd yn llawen yn wyneb ofn?

Cawsom y bendithion hyn yn llawn – a llawer mwy – yn ystod Unfed Gymanfa ar Ddeg Cyngor Eglwysi'r Byd (CEB) a gynhaliwyd rhwng 31 Awst a 8 Medi yn ninas hyfryd Karlsruhe. Ers ei eni yn 1948, yn dilyn trawma a dinistr rhyfel, mae'r eglwysi sy'n aelodau o CEB wedi cwrdd bob rhyw wyth mlynedd er mwyn addoli, tystiolaethu a cheisio cyfiawnder ac undod. Gan gynrychioli 352 o eglwysi ledled y byd a mwy na hanner biliwn o Gristnogion, y Gymanfa Gyffredinol yw cynulliad uchaf a mwyaf cynhwysol CEB. Mae'n ceisio sôn wrth fyd blinedig, treisgar ac anghyfartal am y gobaith sicr bod Duw yn gwneud pob peth yn newydd yng Nghrist a'r Ysbryd. Bu thema'r Gymanfa – "Mae cariad Crist yn cymell y byd i gymodi ac uno" – yn ein galw ni i 'eciwmeniaeth y galon' sy'n cofleidio'r un arall ac yn mynnu bod myfyrio diwinyddol cywrain yn mynd llaw yn llaw â gweithredu pendant a thrawsnewidiol dros y blaned fregus hon a'i phobl. Cyflwynodd anerchiadau Cymedrolwraig y Pwyllgor Canolog a'r Ysgrifennydd Cyffredinol Dros Dro (ill dau yn dod i ddiwedd eu tymor gwasanaeth), Arlywydd yr Almaen a llu o bobl eraill fyfyrdodau egnïol ar thema'r Gymanfa ac hefyd anogaeth wrth ddygymod â'r heriau sy'n ein hwynebu.

Wrth i ni gyfarfod yn yr Almaen roeddem yn ymwybodol o nifer o argyfyngau yn ein byd. Roedd aelodau o Eglwysi Uniongred Wcráin a Rwsia yn bresennol wrth i ddatganiad y Gymanfa *Rhyfel yn Wcráin: Heddwch a Chyfiawnder yn Rhanbarth Ewrop* "gondemnio y rhyfel anghyfreithlon ac anghyfiawnadwy hon" ac "adnewyddu'r alwad am gadoediad ar unwaith er mwyn atal y marw a'r dinistrio ac am ddeialog a thrafodaeth i sicrhau heddwch cynaliadwy." Datgelodd y broses i gytuno datganiad yn ymwneud â'r tensiynau a'r trais yn Israel a Phalesteina farnau gwahanol, er bod pawb wedi ymrwymo i gysylltu'r geiriau â chamau ymarferol tuag at gymodi, neu, fel y cadarnhawyd yn nheitl y datganiad, *Ceisio Cyfiawnder a Heddwch i bawb yn y Dwyrain Canol*. Roedd cwmpas y Pwyllgor Materion Cyhoeddus dipyn yn ehangach na'r croestyniadau hynod weledol hyn, wrth i alwadau seinio hefyd ynglŷn â Gorllewin Papua, Nagorno-Karabakh, a phenrhyn rhanedig Korea, yn ogystal â galwad i gydnabod marwolaethau rhyw hanner miliwn o Gristnogion Syriaidd-Arameaidd yn 1915 fel hil-laddiad. Mabwysiadwyd datganiadau yn ymwneud â hiliaeth, casteistiaeth, estrongasedd, trais ar sail rywedd ac anffafriaeth – pob un wedi ei ystyried fel pechod yn erbyn Duw – yn ogystal â'r angen i geisio cymod â phobl frodorol, y bu rhai ohonynt yn gynrychiolwyr yn y Gymanfa neu wedi cymryd rhan yn un o'r cyn-gymanfaoedd. Yn *Yr hyn sy'n Arwain at Heddwch: Symud y Byd tuag at Gymod ac Undod* ail-addunedodd y teulu Cristnogol

---

[1] Er mwy cael blas ar yr addoliad yn ystod y Gymanfa gweler gwefan CEB; er enghraifft, yma, yma, yma ac yma.

byd-eang i adeiladu heddwch drwy ddeialog a chydweithredu rhyng-grefyddol. Dechreuodd y Ddegfed Gymanfa (Busan, 2013) y Bererindod o Gyfiawnder a Heddwch ac ehangwyd hon yn Karlsruhe i fod yn Bererindod o Heddwch, Cymod ac Undod. Cafwyd galwadau newydd o ran cynnwys pawb a sicrhau diwedd i drais ar sail rhywedd drwy'r ymgyrch adnabyddus Dydd Iau mewn Du.

Atseiniodd ymdrechion brys i wynebu'r argyfwng hinsawdd drwy'r Gymanfa gyfan, mewn addoliad, sesiynau llawn thematig ac yng nghyfarchion sawl un o'r arweinwyr eglwysig. Soniodd rhai o'r cynrychiolwyr am erchyllterau megis iâ yn toddi, lefelau'r môr yn codi, cyfnodau o sychder estynedig, colli bioamrywiaeth a phatrymau tywydd afreolus, dinistriol weithiau, tra bo eraill yn galaru amharodrwydd llywodraethau i weithredu mewn dulliau amserol, eofn a chostus. Yn y datganiad olaf ar newid hinsawdd galwyd ni i ailgyferio'n llwyr (*metanoia*), gan gydnabod bod trachwant dynol, gwadu'r sefyllfa a difaterwch wedi arwain at anghydbwysedd anhrefnus sy'n peryglu'r tlotaf a'r mwyaf diniwed, heb sôn am y tir, y moroedd a'r we gymhleth o fywyd naturiol a gynhelir ganddynt. Dan y teitl *Y Blaned Fyw: Ceisio Cymdeithas Fyd-eang Gyfiawn a Chynaliadwy*, mae'r ddogfen yn galw am newid cyflym i ffynonellau adnewyddadwy o ynni, ynghyd â llu o atebion ymarferol, cyraeddadwy, gyda'r rhai cyfoethocaf a galluocaf yn arwain a chyda chefnogaeth ariannol i gynnal y rhai gyda llai o adnoddau. Gan gydnabod mai "eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder" (Salm 24:1), cadarnhaodd yr adroddiad bod

> bodau dynol, wedi eu creu ar lun Duw, wedi eu galw i wasanaethu fel rhai sy'n gofalu'n ffyddlon a chyfrifol am greadigaeth werthfawr ac unigryw Duw. Rydym ni'n rhan gynhenid ohoni ac yn llwyr ddibynnol ar fyd naturiol cyfan sy'n iach.

Cydwedda'r fath alwad am gyfiawnder â'r Datganiad Undod sy'n atseinio pwyslais thematig y Gymanfa ar gariad. Mae bod yn un drwy gariad Crist yn cyhoeddi galwedigaeth Gristnogol i garu sy'n ymateb mewn ffordd ddeinamig i'r problemau sy'n gwanychu'r byd. Yn Karlsruhe cadarnhaodd y cynrychiolwyr mai "gwir nod Iesu Grist, a chydag ef yr holl Gristnogion, yw cyrraedd cymdeithas weladwy, yn un mewn undod sanctaidd." Felly yn hytrach nag encilio o'r byd mae hwn yn mynnu ymrwymiad newydd i ymateb i freuder, gwendid a phoen y byd gyda dyhead am drawsnewidiad sy'n rhoi bywyd. Adleisiwyd y fath deimladau yn y negeseuon oddi wrth arweinwyr Cristnogol i gyfarch ac annog, gan gynnwys y Pab, Y Patriarch Eciwmenaidd Bartholomeus ac Archesgob Caergaint – yn ogystal â'r sawl o gymunedau ffydd eraill ac arweinwyr dinesig a gwleidyddol.

Pwysig yw nodi, fodd bynnag, bod y Gymanfa yn golygu mwy na geiriau. Crybwyllodd adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol Dros Dro weithredu ac ymgyrchu CEB dros yr wyth mlynedd diwethaf, tra bo Cymanfa 2022 wedi gosod amcanion uchelgeisiol iddi hi ei hun dros yr wyth mlynedd nesaf yn arwain at y ddeuddegfed Gymanfa a gynllunnir ar gyfer 2030.

Wrth ethol llywydd o bob un o'r wyth rhanbarth (gan gynnwys rhanbarth y Môr Tawel, Gogledd America ac Ewrop), Pwyllgor Canolog o 150 o bobl (gan gynnwys yr Esgob Gregory), Cymedrolwr y Pwyllgor Canolog a Phwyllgor Gweithredol llai, gwnaethpwyd ymdrechion i gynnwys pobl sy'n cynrychioli'n deg amrywiaeth yr aelodaeth er mwyn goruchwylio gwaith CEB o'r gymanfa hon i'r un nesaf. Cydnabyddwyd bod angen mwy o waith i gynyddu cynrychiolaeth yr ieuenctid er mwyn wynebu pryderon a fynegwyd yn ystod y gymanfa. Os bydd modd gwireddu'r amcanion a amlinellir uchod bydd y byd yn fwy cynaliadwy, yn fwy tosturiol ac yn fwy cyfartal a bydd pawb yn medru darganfod addewid Crist o fywyd yn ei holl gyflawnder (Ioan 10:10).

Bydd hwn yn golygu taith gostus, ond bywiocaol, gyda Christ sy'n ein galw ni ymlaen fel ei ddisgyblion gyda chyhoeddiad i'r byd. Mae pob Cymanfa Gyffredinol yn cyhoeddi Neges a'r tro hwn penderfynodd ei phwyllgor – gyda'r Esgob Gregory yn gymedrolwr arno – adleisio agweddau

allweddol o themâu'r gymanfa. Ynddi, fe'n hatgoffir o'n galwad i symud – tuag at Dduw ac at ein gilydd – taith a alluogwyd wrth i Dduw yng Nghrist symud tuag atom ni mewn cariad cymodol, sancteiddiol. Yn wir

> yng Nghrist, gwneir pob peth yn newydd. Mae ei gariad yn agored i bawb ac wedi ei gynnig i bawb, gan gynnwys yr olaf, y lleiaf, a'r colledig. Mae ei gariad yn ein symud a'n nerthu ni mewn pererindod o gyfiawnder, cymod ac undod.

Ynghyd â'n chwiorydd a'n brodyr a gynrychiolwyd yn y Gymanfa, gweddïwn am ras yr Ysbryd i gofleidio'r alwedigaeth sanctaidd honno, gan ymddiried y bydd cariad Crist yn wir yn ein cymell ni i gymodi ac uno.

---

Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn y Gymanfa Gyffredinol oedd:

Y Gwir Barch. Gregory Cameron, Esgob Llanelwy
Mrs Mandy Bayton, Swyddog yr Esgob dros Efengylu ac Estyn Allan, Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu
Y Parch. Ganon Ddr Ainsley Griffiths, Cyfarwyddwr Ffydd, Trefn ac Undod

---

*Cynhwysir isod cyfieithiad Cymraeg o destun llawn y Neges. Gofynnwn yn garedig i'n heglwysi ei defnyddio'n helaeth er mwyn cyfarwyddo'r Eglwys yng Nghymru â gwaith CEB.*

## Unfed Gymanfa ar Ddeg Cyngor Eglwysi'r Byd
## 31 Awst – 8 Medi 2022
## Karlsruhe, Yr Almaen

## Adroddiad y Pwyllgor Neges (diwygiedig)

### Nodyn rhagarweiniol

Mae pob cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd wedi rhyddhau neges i gyfleu profiad y gymanfa a natur ei gwaith i ysbrydoli. Cynigiwn y neges hon i'w darllen ymhob cynulleidfa o'n haelod eglwysi a'i chyhoeddi ym mhob cyfrwng eglwysig. Gobeithiwn y caiff y neges ei chyfieithu'n helaeth a'i defnyddio. Byddai'n dda i'w gweld yn cael ei thrafod a'i dadansoddi, ac yn dod yn destun myfyrdod a gweddi, gan ei bod yn cynrychioli trafodaethau a gweddïau dros 4,000 o bobl a fu'n cymryd rhan yn y gymanfa, wrth i ni geisio'r undod mae Crist yn ei gynnig. Ymddiriedwn y neges hon i chi nawr, gan ofyn i chi ei throsglwyddo i'r holl Gristnogion a phobl o ewyllys da, fel, ynghyd, y gallwn uno drwy ddarganfod sut mae cariad Crist yn cymell y byd i gymodi ac uno.

## Galwad i Gydweithredu

*"Y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni" (2 Cor. 5:14, Y Beibl Cymraeg Newydd)*

### "Dewch ar fy ôl i"

1. O'r pryd pan y bu'n tramwyo'r ddaear, a hyd yn oed yn y presennol, mae Iesu'n cyfeirio'r geiriau hyn at bob bod dynol yn ddi-baid. Ym mywyd Iesu, ei eiriau a'i weithredoedd, ceir gwahoddiad cyson i symud – o un lle corfforol i un arall, o un grŵp o bobl i un arall, o un ffordd o feddwl i un arall. Yn fwy na dim, ymysg problemau'r byd, mae Iesu'n galw arnom i ddod ato ef ac aros yn ei gariad, cariad a gynigir i'r byd i gyd (cymh. Mat. 11:28).

2. Mae llyfr olaf un y Beibl, y Datguddiad, yn sôn am rymoedd hynafol dioddefaint dynol ar waith yn y byd: rhyfel, marwolaeth, afiechyd, a newyn. Wrth i gymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd ymgynnull yn Karlsruhe yn 2022, roeddem yn ymwybodol eu bod yn cael eu hamlygu yn y byd heddiw. Yn eu sgil daw anghyfiawnder ac anffafriaeth, gyda'r rhai sydd â grym yn aml yn eu defnyddio i ormesu eraill yn hytrach nag adeiladu cynhwysiad, cyfiawnder a heddwch.

3. Mae unigolion, pobloedd a gwledydd hefyd yn wynebu trychinebau sy'n codi'n uniongyrchol o berthynas anghyfrifol a thoredig â'r greadigaeth ac sydd wedi peri anghyfiawnder ecolegol ac argyfwng hinsawdd. Wrth i'r argyfwng hinsawdd gyflymu, felly hefyd mae'r dioddef a brofir gan bobl dlawd a'r rhai ar y cyrion.

4. Serch hynny, wrth i ni barhau ar ein pererindod gyda'n gilydd fel cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd, bu hwyliau disgwylgar a gobeithiol arnom, hyd yn oed hwyliau llawen, oherwydd trwy nerth yr Ysbryd Glân mae gwahoddiad Crist yn parhau i fod yn agored i bawb, yn wir i'r greadigaeth gyfan.

5. "Mae cariad Crist yn cymell y byd i gymodi ac uno." Wrth ateb cri'r sawl sy'n dioddef, mae'r cariad hwn yn ein gorfodi ni i ddod ato ef i gydsefyll, ymateb a gweithredu dros gyfiawnder. Fe'n hysgogir i gymodi yng nghariad Duw, ac i dystiolaethu i'r cariad hwnnw a ddangoswyd yng Nghrist (1 Ioan 4:9-11).

6. Symudiad tuag at Dduw yw cymod a thuag at ein gilydd. Mae'n awgrymu parodrwydd i wrando ar Dduw ac ar ein gilydd. Tröedigaeth y galon ydyw, o hunanoldeb a difaterwch i gynhwysiad a gwasanaeth, gan gydnabod ein cyd-ddibyniaeth â'r greadigaeth. Er i ni ddyheu â'n holl galon i wasanaethu Duw a'n cymydog, cyffeswn ein bod ni wedi methu, wedi anghytuno, ac weithiau wedi cerdded mewn cyfeiriadau gwahanol. Cyffeswn fod angen grym trawsnewidiol cariad Crist er mwyn symud i fyd sydd yn wir wedi ei gymodi a'i uno.

**7.** Mae Cristnogion, a'r strwythurau yr ydym wedi eu hadeiladu, wedi chwarae rhan annatod wrth gam-drin eraill. Rhaid edifarhau ac ymuno yn y mudiad cymodi hwn. Yn wyneb rhyfel, anghyfartaledd a phechodau yn erbyn y greadigaeth heddiw, mae cariad Crist yn ein galw ni i edifeirwch, cymod, a chyfiawnder.

### Teithio gyda'n gilydd

8. Ymysg ein holl amrywiaeth, rydym wedi dysgu eto yn ein cymanfa bod yna bererindod o gyfiawnder, cymod ac undod i'w dilyn gyda'n gilydd.

> Wrth gyd-gyfarfod yn yr Almaen, dysgwn am gost rhyfel a phosibilrwydd cymodi;
> Wrth gydglywed gair Duw, cydnabyddwn ein galwad gyffredin;
> Wrth wrando a siarad â'n gilydd, down yn gymdogion agosach;
> Wrth gydalaru, agorwn ein hunain i boen yr un arall a'i ddioddef;
> Wrth gydweithio, cytunwn i gydweithredu;
> Wrth gyd-ddathlu, ymhyfrydwn yn llawenydd yr un arall a'i obeithion;
> Wrth gydweddïo, darganfyddwn gyfoeth ein traddodiadau a phoen ein rhaniadau.

## "Ewch allan i'r holl fyd"

9. Ers cyfnod ei esgyniad i'r nef, a hyd yn oed yn y presennol, mae Crist yn rhoi'r gorchymyn hwn yn ddi-baid i bawb sy'n ei ddilyn ef.

10. Wrth i gymod ddod â ni yn nes at Dduw ac at ein gilydd, mae'n agor y ffordd tuag at undod wedi ei seilio yng nghariad Duw. Fel Cristnogion, fe'n gelwir i aros yng nghariad Duw ac i fod yn un (Ioan 17). Mae'r fath undod, sydd yn rhodd oddi wrth Dduw, yn tarddu o gymod ac wedi ei wreiddio yn ei gariad ef, yn ein galluogi ni i wynebu problemau mwyaf brys y byd. Darganfyddwn nerth i weithredu ar sail undod wedi ei wreiddio yng nghariad Crist, gan ei fod yn ein galluogi ni i ddysgu'r pethau sy'n creu heddwch, i drawsnewid o ymraniad i gymod, ac i weithio er iachâd ein planed fyw. Bydd cariad Crist yn ein cynnal ni oll yn y gorchwyl i gofleidio pawb a goresgyn gwaharddiad.

11. Rydym wedi blasu profiad o'r fath gariad wrth i ni ymgynnull o 352 aelod eglwys gyda'n partneriaid eciwmenaidd, ffrindiau o'r cymunedau ffydd eraill, ac o bob rhanbarth o'r byd er mwyn ceisio undod o fewn ein hamrywiaeth. Gyda'n gilydd, rydym wedi gwrando ar leisiau a wthir yn aml i gyrion ein byd: menywod, ieuenctid, pobl ag anableddau, pobl frodorol.

12. Hiraethwn am fudiad ehangach, am gymod ac undod yr holl ddynoliaeth, ac yn wir o'r cosmos cyfan. Byddai'n hwn yn undod ble mae Duw yn sefydlu cyfiawnder, lle cyfartal i bawb, a thrwy hyn gellid adnewyddu a nerthu'r greadigaeth. Dibynnwn ar gariad Crist wrth i ni weithredu a dadlau dros gyfiawnder hinsawdd. Unwn ein lleisiau â chymanfa Amsterdam (1948) i ddatgan bod "rhyfel yn groes i ewyllys Duw" a chyda chymanfa Nairobi

(1975) bod "hiliaeth yn bechod yn erbyn Duw." Galarwn wrth orfod ailadrodd y datganiadau hyn.

13. Yn ein cymanfa, rydym wedi defnyddio nifer o eiriau, ond o'r rhain rydym wedi llunio penderfyniad newydd. Gofynnwn yn awr am gymorth Duw er mwyn troi ein hymroddiad yn weithred. Ymrwymwn i gydweithio â phobl o ewyllys da. Wrth i ni bwyso a mesur ffrwyth ein gwaith yn Karlsruhe, gwahoddwn bawb i ddod yn gydbererinion. Oherwydd yng Nghrist, gwneir pob peth yn newydd. Mae ei gariad yn agored i bawb ac wedi ei gynnig i bawb, gan gynnwys yr olaf, y lleiaf, a'r colledig. Mae ei gariad yn ein symud a'n nerthu ni mewn pererindod o gyfiawnder, cymod ac undod.